



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y canllawiau drafft gwrth-fwlio a'r pecyn cymorth ategol

Adborth gan y gweithdai rhanbarthol
lonawr – Chwefror 2019

Adroddiad terfynol

CYNNWYS

TUDALEN

1. Cyflwyniad	2
2. Methodoleg y Gwaith Maes	2
3. Canfyddiadau allweddol	4
3.1 Adolygu adrannau enghreifftiol y canllawiau gwrth-fwlio drafft	4
3.1.a Beth yw bwlio?	4
3.1.b Yr hyn nad ydy'n fwlio?	8
3.1.c Llywodraethu	10
3.1.d Adran; Atal	13
3.1.e Adran; Ymateb pan fo bwlio'n digwydd	15
3.2 Archwilio'r pecyn cymorth ar-lein ategol ac adolygu adnoddau	18
3.2.a Y pecyn cymorth ar-lein ategol	18
3.2.b Mathau penodol o fwlio a bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn	21
Adnodd 1: Approach to sexual bullying	22
Adnodd 2: Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â bwlio gwahaniaethol	23
Adnodd 3: 'Stori Sam – fe fydd e'n gwella'	24
3.2.c Ymateb pan fo bwlio'n digwydd	25
Adnodd 1: Ffurflen cofnodi digwyddiad bwlio	25
Adnodd 2: Ffurflen cofnodi bwlio ar-lein	27
Adnodd 3: Choose Respect	28
Adnodd 4: Mynd i'r afael â hiliaeth mewn taflenni ffeithiau ar gyfer ysgolion	29
3.3 Awgrymiadau am adnoddau ychwanegol	30

1. Cyflwyniad

Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘Parchu eraill’, cyfres o ganllawiau gwrth-fwlio cynhwysfawr sy’n trafod pum maes allweddol gan nodi pwysigrwydd mabwysiadu dull ataliol ar yr un pryd â chydabod bod mesurau ymateb yn ofynnol hefyd. Mae awdurdodau lleol ac ysgolion wedi defnyddio’r canllawiau hyn i helpu i ddatblygu eu polisiau a strategaethau gwrth-fwlio eu hunain, gan sicrhau mwy o gysondeb o ran arferion ledled Cymru. Ers 2011, pan gafodd ‘Parchu eraill’ ei gyhoeddi, bu nifer o ddatblygiadau arwyddocaol, sy’n berthnasol i’r canllawiau gwrth-fwlio.

Yn 2016, cymeradwyodd y Gweinidog Addysg raglen o waith gwrth-fwlio a oedd yn cynnwys diwygio ‘Parchu eraill’ er mwyn diweddarau a chryfhau’r canllawiau a sicrhau ei fod yn adlewyrchu’r polisi a’r tirlun deddfwriaethol presennol a newidiadau mewn technoleg. Rhwng 2016 a 2018, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgysylltiad helaeth â phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol, ymarferwyr addysg, Estyn a phlant a phobl ifanc i bennu pa newidiadau a ddylai gael eu gwneud i’r canllawiau er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn effeithiol ac yn hawdd eu defnyddio.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda chontractiwr allanol i gynhyrchu canllawiau gwrth-fwlio drafft newydd a phecyn cymorth gweithredol i helpu i drechu bwlio mewn ysgolion a chymunedau ysgol. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus 14 wythnos, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys pedwar digwyddiad ymgysylltu rhanbarthol i geisio barn yn uniongyrchol ar y canllawiau drafft a’r pecyn cymorth ategol drwy gyfrwng gweithdai trafod gydag ymarferwyr addysg a chyrrff rhanddeiliaid.

2. Methodoleg y Gwaith Maes

Cafodd dulliau’r gwaith maes eu cytuno â thîm polisi Llywodraeth Cymru a chafodd cyfleoedd ymgysylltu eu cynllunio i daro cydbwysedd daearyddol. Cafodd e-bost ei anfon gan Lywodraeth Cymru i ystod eang o gyrff rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y canllawiau drafft. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 23 Ionawr ac 8 Chwefror 2019. Cafodd pedwar gweithdy ymgynghori rhanbarthol eu cynnal yn y manau canlynol:

- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin, 23 Ionawr
- Cwrs Rasio Ceffylau Cas-gwent, 25 Ionawr
- The Vale Resort, Hensol, 6 Chwefror
- Venue Cymru, Llandudno, 8 Chwefror

Aeth pob digwyddiad ymlaen am ddwy awr a 45 munud a chynnwys:

- Disgrifio cefndir gwaith a wnaed hyd yma i ddatblygu’r canllawiau a’r pecyn cymorth;
- Anerchiad fideo gan y Gweinidog Addysg;

- Gweithdy Trafod 1 i archwilio barn rhanddeiliaid am adrannau enghreifftiol o'r canllawiau drafft i ysgolion; a
- Gweithdy Trafod 2 i archwilio barn rhanddeiliaid am y pecyn cymorth ar-lein ategol ac adolygu'r adnoddau copi caled dethol o ddwy adran y pecyn cymorth.

Yn dilyn y trafodaethau, cafodd pwyntiau allweddol pob grŵp eu crynhoi ar dempled adborth safonol. Yna rhoesant drosolwg o'u trafodaethau i'r gynulleidfa gyfan yn ystod sesiwn lawn.

Yn gyfan gwbl cymerodd 125 o unigolion ran yn y gweithdai trafod. Cafodd y digwyddiadau eu mynychu gan gynrychiolwyr ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, Estyn, undebau athrawon, Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru, byrddau iechyd lleol, Coleg Brenhinol y Nyrsys, Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu Gogledd Cymru, grwpiau ymgyrchu a chyrrff sector gwirfoddol sydd â diddordeb mewn materion gwrth-fwlio.

Yn ogystal â mynychu'r digwyddiadau hyn, cafodd rhanddeiliaid eu hannog i godi ymwybyddiaeth o'r canllawiau gwrth-fwlio drafft ymhlith eu cydweithwyr a chynulleidfaoedd ehangach, ac i ymateb i ymgynghoriad ar-lein Llywodraeth Cymru.

Er mai ymchwil ansoddol oedd y fethodoleg fwyaf priodol ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, mae'n bwysig cadw mewn cof ei bod yn defnyddio samplau bach sy'n cynrychioli ystod o safbwyntiau. Mae ymchwil ansoddol wedi'i dylunio i fod yn ddangosiadol ac mae angen cymryd hyn i ystyriaeth wrth ddehongli'r canfyddiadau. Mae'r canfyddiadau meintiol yn yr adroddiad hwn wedi eu seilio'n gyfan gwbl ar ymatebion sydd wedi'u coladu oddi wrth gyfranogwyr yn y gweithgareddau ymgynghori pwrpasol. Gan hynny, nid yw'r canfyddiadau yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach.

3. Canfyddiadau Allweddol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ymatebion i gwestiynau ymgynghori allweddol a gafwyd yn y pedwar digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus.

3.1 Adolygu adrannau enghreifftiol y canllawiau gwrth-fwlio drafft

Ar gyfer Gweithdy Trafod 1, ymrannodd y cyfranogwyr yn grwpiau o hyd at saith o bobl. Cafodd pob grŵp gopi o'r canllawiau gwrth-fwlio drafft "*Parchu eraill – ysgolion*" a'r cwestiynau ymgynghori i'w hystyried. Gofynnwyd i bob grŵp enwebu cadeirydd, llefarydd a sgrifellwr. Yna gofynnwyd iddynt adolygu pum adran enghreifftiol y canllawiau drafft ac ymateb i'r cwestiynau ymgynghori. Y pum adran, a oedd yn rhynddynt yn cynrychioli tua 25% o'r ddogfen gyfan, oedd:

- Beth yw bwlio?
- Yr hyn nad yw'n fwlio?
- Llywodraethu
- Atal
- Ymateb pan fo bwlio'n digwydd

Am bob un o'r pum adran, gofynnwyd i grwpiau drafod a rhoi sgôr i'r agweddau canlynol:

- Pa mor ddefnyddiol ydy'r adran hon i chi?
- Pa mor hawdd ydy hi i ddarllen a defnyddio'r adran hon?

Hefyd am bob adran, gofynnwyd i grwpiau drafod:

- Pa agweddau ydych chi'n eu hoffi'n arbennig? Pam?
- Pa feysydd allai gael eu gwella? Pam?

3.1.a Beth yw bwlio?

Wrth holi am farn cyfranogwyr am adran hon y canllawiau, cytunodd y mwyafrif llethol fod y cynnwys yn ddefnyddiol (82.4%) a'r diwyg yn hawdd ei ddefnyddio (72%) – gweler tabl 1 am fanylion. Ymhlith nodweddion y dyluniad roeddent yn eu hoffi'n arbennig oedd:

- bod y diffiniad wedi ei gysgodi mewn gwyrdd i'w wneud yn amlycach
- defnydd pwyntiau bwled, yn benodol yn yr adran hon, ac mewn manau eraill drwy gydol y ddogfen, i wella pa mor hwylus ydyw i'w darllen
- y cyfeiriadau at adnoddau yn y pecyn cymorth ar-lein

Tabl 1						
Pleidlais y grŵp (n = 125)	dim ateb	1 'dim o gwbl'	2	3	4	5 'yn fawr iawn'
Pa mor ddefnyddiol ydy'r adran hon i chi?	7 (5.6%)	0 (0%)	6 (4.8%)	9 (7.2%)	77 (61.6%)	26 (20.8%)
Pa mor hawdd ydy hi i ddarllen a defnyddio'r adran hon?	7 (5.6%)	0 (0%)	1 (0.8%)	12 (9.6%)	45 (36%)	45 (36%)

Un agwedd benodol a oedd yn gryfder ym marn y mwyafrif o gyfranogwyr oedd y diffiniad cryno a phendant y teimlent ei fod yn rhoi cyd-destun clir am weddill y ddogfen. Roeddent yn gwerthfawrogi bod y diffiniad yn gymwys dros bob lleoliad ac ystod oedran a byddai'n gymharol hawdd i blant a phobl ifanc ei ddeall. Roeddent hefyd yn hoffi'r testun ategol, yn enwedig adrannau 2.3, 2.4, 2.7 a 2.8, a oedd yn eu barn hwy'n cael ei fynegi'n dda ac yn helpu dealltwriaeth drwy ddadansoddi elfennau penodol bwlio. Hefyd roedd canfyddiad bod yr eglurhad ynghylch yr ymateb i ddigwyddiadau un-tro yn ddefnyddiol, gyda lleiafrif yn awgrymu y dylai'r testun mewn print italig ar dudalen 7 gael ei gynnwys yn y prif destun.

'Mae'r diffiniad yn hawdd ei ddeall a bydd yn ddefnyddiol wrth hyfforddi staff a chyda rhieni.'

'Diffiniad clir a defnyddiol. Hyfryd a syml ac nid yn agored i ddehongliad.'

Yn gyffredinol, croesawodd cyfranogwyr y syniad o ysgolion yn cynnwys dysgwyr, defnyddio'r diffiniad a ddarperir yn y canllawiau drafft, i gytuno i'w diffiniad eu hun o fwlio. Teimlent y dylai'r ymagwedd hon gael ei hestyn i gynnwys pob aelod o gymuned yr ysgol, er mwyn i'r diffiniad gael ei rannu a'i ddeall. Mae enghreifftiau o adborth cadarnhaol yn cynnwys:

'Mae'n bwysig cynnwys dysgwyr yn natblygiad diffiniad eu hysgol o fwlio a'r polisi i ddangos sut mae eu hysgol yn herio bwlio.'

'Rydym yn hoffi'r pwyslais ar gynnwys plant a phobl ifanc. Mae'n hanfodol cael eu safbwynt nhw.'

Pan ofynnwyd iddynt pa feysydd a allai gael eu gwella, teimlai lleiafrif o gyfranogwyr fod y diffiniad yn agored i ddehongliad ar lefel yr ysgol a allai olygu bod plant hawdd eu niweidio'n cael eu trin yn anghyson wrth symud ysgolion. Dadleuent fod angen diffiniad cyson sy'n cael ei gytuno'n genedlaethol ar draws pob ysgol.

'Ydy ymgynghori â dysgwyr yn tarseilio'r diffiniad yn y canllawiau? Beth am gytuno a phennu'r diffiniad yn y canllawiau a defnyddio hwn gyda'r holl blant a phobl ifanc i sicrhau dealltwriaeth gyson.'

'Ydy hi'n bosib diffinio bwlio mewn gwirionedd? Fydd y diffiniad cul yma'n atal rhai digwyddiadau rhag cael eu hadrodd?'

'Mae'n rhaid cymryd unrhyw ddatgeliad o fwlio ar ei haeddiannau ei hun - peidiwch â chymryd y diffiniad (yn y canllawiau) fel bod yn rhagnodol.'

Awgrymodd y grŵp cyfrwng Cymraeg yn nigwyddiad Llandudno nad yw'r cyfieithiad Cymraeg o'r diffiniad yn darllen yn naturiol. Dadleuent fod y diffiniad yn y Gymraeg yn rhy hir a bod angen ei isrannu. Awgrymodd cyfranogwyr hefyd fod angen i'r diffiniad gynnwys cyfeiriad at unigedd cymdeithasol er mwyn cipio pryder sy'n deillio o ofn pobl ifanc o golli allan (FOMO) h.y. y gallai digwyddiad cyffrous neu ddiddorol fod yn digwydd ar y pryd yn rhywle arall, ofn sy'n codi'n aml o weld negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol.

'Yn hoffi bod diffiniad yn cael ei roi ond yn teimlo bod angen i hyn gynnwys unigedd cymdeithasol ynghyd ag unigedd corfforol ac emosiynol.'

Nododd cyfranogwyr angen i egluro rhywfaint o'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio, yn arbennig defnydd ymglyfnewidiol seiberfwlio a bwlio ar-lein. Yn gyffredinol roeddent yn ffafrio'r term bwlio ar-lein, fel a esbonnir yn yr adran *'Termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon'*. Fel arall, roeddent yn awgrymu cynnwys troednodyn yn yr adran hon i esbonio'r gwahaniaeth rhwng seiberfwlio a bwlio ar-lein. Roeddent yn awgrymu hefyd y dylai cyfeiriadau cryfach at effaith cyfryngau cymdeithasol gael eu cynnwys fel elfen nodedig ymddygiad bwlio.

'Hen derm yw seiberfwlio a does dim ei angen. Bwlio ar-lein ydy'r term ymbarél sy'n cwmpasu pob cyfrwng cymdeithasol a phlatfform ar-lein.'

'Gallech chi edrych ar gategoreiddio bwlio fel 'uniongyrchol' (wyneb yn wyneb) ac 'anuniongyrchol' (yn yr amgylchedd digidol).'

Cododd cyfranogwyr bryderon am y naws cymharol oddefol a ddefnyddir yn y canllawiau, yn arbennig defnydd 'dylai' a 'gallai'. Roeddent yn dadlau y dylai'r canllawiau roi cyfeiriad cryfach i ysgolion ac y dylai gofynion statudol gael eu datgan eu glir. Cafodd defnydd 'rhaid' ei arddel mewn achosion o'r fath er mwyn osgoi amwysedd.

'Ydy hi'n orfodol adrodd am fwlio? Os na, sut mae ysgol yn cydnabod patrymau ymddygiad?'

'Rhaid gwneud yr adrannau sy'n statudol yn eglur.'

Teimlai'r mwyafrif fod y termau 'cyflawnwr' a 'tharged' hyn yn briodol mewn cyd-destun bwlio. Fodd bynnag, roeddent am weld rhagor o gysondeb yn nefnydd ymadroddion allweddol i ddileu unrhyw amwysedd, er enghraifft y diffyg cysondeb yn nefnydd plant a phobl ifanc trwy gydol y ddogfen. Enghraifft benodol arall a roddwyd am adran benodol oedd y drwschwch posibl a achoswyd gan ddefnydd ymglyfnwidiol yr ymadroddion *'digwydd yn aml'*, *'digwydd yn aml dros gyfnod o amser'* a *'mae bwlio fel arfer yn golygu gweithrediadau sy'n cael ei hailadrodd'*. Roeddent eisiau eglurhad hefyd am ddefnydd y termau *'dros gyfnod o amser'* ac *'un-tro'*.

'Er bod cydnabyddiaeth yn y canllawiau bod digwyddiadau un-tro yn gallu cael effaith drawmatig, teimlwn y dylai'r agwedd hon gael mwy o amlygrwydd.'

Yn yr un modd, awgryment y dylai 2.4 gael ei aralleirio i ddatgan *'Mae anghydbwysedd pŵer canfyddedig ...'* i fod yn fwy cyson â'r iaith sy'n cael ei defnyddio yn y testun 'pŵer anghyfartal' ar dudalen 9 ***'Pŵer anghyfartal: mae bwlio'n golygu camdriniaeth pŵer gan un person neu grŵp sy'n fwy grymus (yn cael eu canfod felly)'***

'Ddim yn siŵr am ddefnydd 'yn aml dros gyfnod o amser'. Ydy hyn yn awgrymu bod rhaid i athrawon aros am nifer penodedig o ddigwyddiadau cyn ymyrryd a rhoi cymorth?'

'Pa mor aml ydy 'yn aml dros gyfnod o amser'?''

'Yn hir, yn amleiriog ac yn ffurfiol; angen bod yn fwy cryno a symleiddio'r testun lle bo'n briodol.'

Awgrym arall oedd bod angen datblygu'r testun am ragfarn (2.8) yn ymwneud ag ystrydebau neu ragdybiaethau am hunaniaeth ymhellach. Yn ogystal â'r nodweddion a restrir, awgrymwyd y gallai gynnwys yn ogystal diddordebau diwylliannol pobl ifanc e.e. cerddoriaeth, statws teuluol e.e. yn derbyn gofal, a'u cyd-destun cymdeithasol e.e. byw mewn tldi.

Ymhlith yr awgrymiadau am welliannau oedd ychwanegu:

- cyfeiriad at feithrin perthynas amhriodol/troseddau cyfeillio; yn yr adran hon ac yn yr eirfa/'Termau a ddefnyddir'
- ychwanegu datganiad at 2.8 (*'Gall bwlio gymryd llawer o ffurfiau'*) i esbonio 'Nid yw'r rhestr o enghreifftiau a roddir yn gynhwysfawr'

- dyfyniadau gan ddysgwyr i amlygu effaith bwlio
- astudiaethau achos di-enw yn enghreifftiau o bob math o fwlio sydd ar gael drwy'r pecyn cymorth ar-lein

3.1.b Yr hyn nad yw'n fwlio?

Pan ofynnwyd eu barn am yr adran hon, cytunodd y mwyafrif o gyfranogwyr fod y cynnwys yn ddefnyddiol (65.6%) ac yn hawdd ei ddefnyddio (73.6%) – gweler tabl 2 am fanylion.

Tabl 2						
Pleidlais y grŵp (n = 125)	dim ateb	1 'dim o gwbl'	2	3	4	5 'yn fawr iawn'
Pa mor ddefnyddiol ydy'r adran hon i chi?	7 (5.6%)	17 (13.6%)	0 (0%)	19 (15.2%)	49 (39.2%)	33 (26.4%)
Pa mor hawdd ydy hi i ddarllen a defnyddio'r adran hon?	14 (11.2%)	6 (4.8%)	0 (0%)	13 (10.4%)	44 (35.2%)	48 (38.4%)

Roedd y mwyafrif o gyfranogwyr yn hoffi diwyg yr adran hon ac o'r farn bod y cynnwys yn glir ac yn hawdd ei ddarllen gydag ychydig iawn o amwyseddu. Roeddent yn croesawu'r esboniadau o enghreifftiau na fyddent fel arfer yn cael eu hystyried yn fwlio ac yn teimlo y byddai rhestr o'r fath yn adnodd defnyddiol iawn i weithwyr proffesiynol ei defnyddio i hyrwyddo trafodaeth â phobl ifanc, cydweithwyr a rhieni/gofalwyr. Roedd cyfranogwyr hefyd yn croesawu'r pwyslais ar yr angen i ddigwyddiadau un-tro gael eu cofnodi. Mae enghreifftiau o adborth cadarnhaol yn cynnwys:

'Dim gorgyffwrdd â'r adran flaenorol felly'n hawdd ei deall.'

Mae'n ddefnyddiol cael rhestr o enghreifftiau nad ydyn nhw'n gyfystyr â bwlio.'

'Mae'r cyfeiriad at ddiogelu a chynnwys yr heddlu yn helpu i godi ymwybyddiaeth bod bwlio yn gallu bod yn fater diogelu hefyd.'

'Os bydd digwyddiadau un-tro yn cael eu cofnodi'n briodol, dylai helpu i weld sut mae digwyddiadau o'r fath yn dwysáu'n fwlio.'

'Gallai gael ei defnyddio i greu offeryn i helpu i benderfynu ai bwlio neu beidio ydy digwyddiad.'

Pan ofynnwyd pa feysydd a allai gael eu gwella, dadleuodd lleiafrif bach o gyfranogwyr fod yr adran hon yn gorgyffwrdd â'r adran flaenorol 'Beth yw bwlio?' a bod potensial am ddryswch.

'Nid ydym yn teimlo y dylai'r adran hon fod ar wahân i'r adran flaenorol. Mae'n peryglu siawns ei chynnwys fel adran ar wahân. Beth petai athro'n cymryd hyn fel rheswm i beidio â gweithredu? Ydy hi'n dilysu'r ymddygiadau sydd yn y rhestr?'

Er bod rhai cyfranogwyr yn hoffi'r cyfeiriad at 'insults and banter', dadleuodd eraill fod cynnwys y termau yn yr adran hon o bosib yn rhoi 'dihangfa' i rai gweithwyr proffesiynol i beidio ag adrodd achosion o fwlio. Awgryment roi cynnwys ychwanegol yn y pecyn cymorth ar-lein i annog ysgolion i herio 'banter' di-eisiau cyn iddo fynd yn fwlio.

'Ddim yn hoffi defnydd 'banter' gan fod modd defnyddio hynny i gyfiawnhau bwlio.'

'Mae'r testun 'Insults and banter' yn chwithig ac mae angen ei ailddrafftio.'

'Mae 'banter' yn cael ei ddefnyddio'n aml fel cymal dianc. Os ydy 'banter' yn cael ei ailadrodd yna dylai gyfrif fel bwlio. Mae effaith 'banter' yn dibynnu ar ba mor gydnherth mae'r targed.'

Awgrymodd trafodaethau gweithdai fod rhai cyfranogwyr yn ei chael yn anodd gwahaniaethu rhwng bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn a throeddau casineb. Roeddent am gael eglurhad pellach ynghylch y gofynion i adrodd digwyddiadau o'r fath, ac yn benodol pryd i gynnwys yr heddlu. Yn yr un modd, teimlai rhai fod angen amlygu ac esbonio'n eglur unrhyw ofynion ar ysgolion mewn perthynas â gwaith gwrth-fwlio, fel a bennir yn [Mynd i'r Afael â Throeddau a Digwyddiadau Casineb; Fframwaith Gweithredu](#) (Llywodraeth Cymru, 2014) ac yn y *Prevent Duty guidelines: for England and Wales*.

'Nid yw troeddau casineb bob amser yn dod o dan y polisi Prevent.'

'Oes polisi Prevent gan bob ysgol? Dylai hyn fod yn ddiogelu?'

'Dylai ymatebion i droeddau casineb neu'r digwyddiadau sy'n arwain at drosedd casineb gael sylw. Mae ysgolion yn dweud mai mater i'r heddlu ydy hi, mae'r heddlu yn dweud mai mater i ysgolion, ac o ganlyniad mae'n bosib i blentyn gael ei adael heb unrhyw gefnogaeth.'

Roedd awgrymiadau am welliannau ychwanegol yn cynnwys:

- eglurhad am gofnodi ac adrodd digwyddiadau un-tro
- cyngor am enghreifftiau penodol fel ail-drydar ffotograffau a darnau ffilm o ddigwyddiadau bwlio, a sut dylai ysgolion gofnodi ac adrodd digwyddiadau o'r fath
- ychwanegu esboniad o 'ymyrraeth therapiwtig' yn yr adran 'Termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon'

‘Ein pryder ni yw y gallai digwyddiadau un-tro gael eu cymryd fel peidio â bod yn fwlio ac felly ni fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd neu ni fyddai'r rhesymau sylfaenol dros y digwyddiad yn cael sylw.’

‘Pwy sy'n gwneud dyfarniad am ymyrraeth therapiwtig? Mae diffyg/prinder therapi gwirioneddol ar gael. Oes arian ar gyfer y gefnogaeth yma? pa mor gymwys ydy ysgolion i wneud y dyfarniad yma?’

3.1.c Llywodraethu

Mynegodd cyfranogwyr farn gymysg am yr adran hon. Teimlai tua hanner (51.2%) ei bod yn hawdd ei darllen a'i defnyddio. Fodd bynnag, roedd llawer yn ansicr am ddefnyddioldeb y cynnwys – gweler tabl 3 am fanylion.

Tabl 3						
Pleidlais y grŵp (n = 125)	dim ateb	1 'dim o gwbl'	2	3	4	5 'yn fawr iawn'
Pa mor ddefnyddiol ydy'r adran hon i chi?	1 (0.8%)	0 (0%)	24 (19.2%)	77 (61.6%)	13 (10.4%)	10 (8%)
Pa mor hawdd ydy hi i ddarllen a defnyddio'r adran hon?	7 (5.6%)	0 (0%)	12 (9.6%)	42 (33.6)	36 (28.8%)	28 (22.4%)

Y cryfderau penodol a enwyd oedd:

- y gydnabyddiaeth y dylai'r polisi gwrth-fwlio gyd-fynd â pholisïau eraill ysgol; ond mynegwyd teimladau bod angen i bolisïau gwrth-fwlio ac ymddygiad ysgol fod yn ddogfennau ar wahân
- y rhestr o elfennau y dylai polisi gwrth-fwlio ysgol eu cynnwys
- y pwyslais ar waith gwrth-fwlio sy'n cael ei *'ymgorffori yn y cwricwlwm....'*
- y cyfeiriad clir a roddwyd i uwch arweinwyr y dylai hyfforddiant gwrth-fwlio rheolaidd gael ei ddarparu i bob aelod staff i sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth gyffredin, a hynny er mwyn i ddigwyddiadau gael eu cofnodi a'u hadrodd yn gyson. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon y gall hyfforddiant gwrth-fwlio fod yn her i'w ddarparu'n ymarferol, oherwydd cyfyngiadau yn y gyllideb.
- cynnwys adran am gludiant ysgol sy'n trafod sut y caiff digwyddiadau o fwlio ar deithiau i'r ysgol ac oddi yno eu hatal
- y dolenni ag adnoddau ategol yn y pecyn cymorth ar-lein

Teimlai cyfranogwyr y dylai geiriad adran 10.3 *'Dylai'r polisi gael ei ddiweddarau'n rheolaidd.'* fod yn fwy gorchmynnol i ddatgan *'dylai'r (neu hyd yn oed rhaid i'r) polisi gael ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn'* i sicrhau ymagwedd gyson ar draws pob ysgol. Yn

ogystal, awgrymodd eraill fod geiriad adran 10.4 yn rhy oddefol, yn benodol y *'gall ysgolion ddewis cyhoeddi'r polisi ar eu gwefannau.'* Dadleuent y dylai fod yn orfodol i bob ysgol gyhoeddi ei pholisi gwrth-fwlio ar wefan yr ysgol. Fel arall, os nad gofyniad statudol yw hwn, gellid mabwysiadu'r ymadrodd *'Mae'n arfer da i ysgolion gyhoeddi'r polisi ar eu gwefannau.'*

'Dylai fod yn bolisi gwrth-fwlio ar wahân i roi mwy o statws iddo a dylai fod cyfeiriad ato yn y polisi ymddygiad.'

'Tynnwch y term 'dylai' gan fod hynny'n rhoi hyblygrwydd i ysgolion hepgor rhai agweddau o'u polisi.'

Ymhlith yr awgrymiadau am welliannau ychwanegol i'r adran hon roedd:

- cryfhau'r cyfeiriadau at waith gwrth-fwlio yng ngofynion y cwricwlwm newydd, yn arbennig at Faes Dysgu a Phrofiad iechyd a llesiant
- esbonio sut dylai gweithgareddau gwrth-fwlio'r ystafell ddosbarth ganolbwyntio ar hyrwyddo cydberthnasoedd personol iach
- integreiddio cyfeiriad at hawliau plant
- ychwanegu y dylai'r polisi gwrth-fwlio gysylltu â pholisïau perthnasol eraill, gan esbonio'n arbennig sut mae'r polisi gwrth-fwlio yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Teithio
- rhoi mwy o fanylion am rôl llywodraethwyr yn yr adolygiad rheolaidd o'r polisi gwrth-fwlio; ystyried ychwanegu gofyniad i bob ysgol gael llywodraethwr arweiniol sy'n gyfrifol am faterion gwrth-fwlio, llesiant a diogelu.
- cynnwys unrhyw acronymau, fel PSED, ochr yn ochr ag esboniad ohonynt yn yr adran 'Termau a ddefnyddir'
- rhoi enghreifftiau penodol o'r *'Arwyddion y gall fod plentyn yn dioddef bwlio'*, fel atodiad o bosibl
- darparu templed polisi enghreifftiol i ysgolion ei lawrlwytho o'r pecyn cymorth ar-lein
- esbonio sut mae ymgynghori â dysgwyr, gan gynnwys y sawl â Saesneg fel Iaith Ychwanegol a'r sawl ag anghenion addysgol arbennig, a'u cynnwys mewn datblygu polisi
- egluro pa mor aml dylai cyfleoedd proffesiynol rheolaidd sy'n ymwneud â gwaith gwrth-fwlio i staff gael eu darparu
- trefnu bod adnoddau hyfforddiant staff ar gael drwy'r pecyn cymorth ar-lein
- pennu'r prif gyfrifoldeb dros ddatblygu a gweithredu polisi gwrth-fwlio
- egluro'r cyfrifoldebau dros fonitro digwyddiadau bwlio ar deithiau i'r ysgol ac oddi yno, nid ar gludiant ysgol yn unig, ond hefyd yn cynnwys y disgyblion hynny nad ydynt yn defnyddio cludiant ysgol
- esbonio'r gofynion i adrodd digwyddiadau o fathau o fwlio i'r corff llywodraethu a'r awdurdod lleol

- esbonio i rieni a gofalwyr sut a ble i adrodd digwyddiadau bwlio
- ychwanegu canlyniadau a chosbau posibl
- ychwanegu gofyniad i ysgolion ddarparu fersiwn addas i blant o'r polisi gwrth-fwlio
- llunio astudiaeth achos i ddangos sut gallai ysgol ddefnyddio dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED) yn ddull o leihau bwlio

'Dylai'r polisi gwrth-fwlio fod yn ganolog i ymagwedd yr ysgol gyfan at lesiant ac nid yn gysylltiedig â pholisïau eraill yn unig.'

'Dylai fod gan y polisi gwrth-fwlio gysylltiadau â'r polisïau diogelu, ymddygiad ac ymddygiad teithio.'

'Yn teimlo bod arnon ni angen polisi gwrth-fwlio safonol oddi wrth Lywodraeth Cymru i bob ysgol.'

'A fydd templed o bolisi gwrth-fwlio oddi wrth Lywodraeth Cymru? Bydd hynny o fudd.'

'Nid yw'r PSED yn cael ei esbonio'n llawn; mae adolygiadau thematig Estyn yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r PSED ymhlith staff ysgolion.'

'Mae adran allweddol ar goll ynghylch pwy ydy'r gweithiwr arweiniol mewn ysgol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros faterion gwrth-fwlio.'

'Pwy sy'n mynd i ysgrifennu'r polisi a'i adolygu? Cyfrifoldeb pwy yw sicrhau bod hynny'n digwydd?'

'Dylai'r llywodraethwr enwebedig sy'n gyfrifol am faterion gwrth-fwlio gael ei enwi yn y polisi.'

'Mae craffu gan y corff llywodraethu yn hanfodol; ychydig o wahaniaeth a wnaiff meddu ar bolisi, mae'n rhaid iddo gael ei orfodi a'i graffu.'

'Mae gwledydd sydd wedi ymchwilio i hyn wedi darganfod nad yw cael polisi yn gwneud mymryn o wahaniaeth i lefelau bwlio. Mae angen mwy o graffu gan y corff llywodraethu gyda chysylltiad amlwg â diogelu.'

'Dylai hyfforddiant i lywodraethwyr yn y polisi a gweithdrefnau gwrth-fwlio fod yn orfodol.'

'Dylai data bwlio gael ei rannu â chynghor yr ysgol a'r awdurdod lleol i nodi patrymau.'

'Dylai Estyn fonitro gweithrediad y polisi gwrth-fwlio mewn ffordd gefnogol.'

'Dylai asiantaethau allanol fod yn ymwybodol o bolisi gwrth-fwlio ysgol a'i ddilyn.'

'Dylai'r polisi bwysleisio pwysigrwydd staff yn bod yn niwtral a pheidio â rhannu eu safbwyntiau, eu barn a'u teimladau personol.'

3.1.d Adran; Atal

Unwaith eto, mynegodd cyfranogwyr amrywiaeth o safbwyntiau. Roedd tua thraean (34.4%) o'r farn bod yr adran hon yn ddefnyddiol ac yn hawdd ei darllen (33.6%), yn arbennig y pwyslais ar iaith gadarnhaol – gweler tabl 4.

Tabl 4						
Pleidlais y grŵp (n = 125)	dim ateb	1 'dim o gwbl'	2	3	4	5 'yn fawr iawn'
Pa mor ddefnyddiol ydy'r adran hon i chi?	0 (0%)	7 (5.6%)	38 (30.4%)	37 (29.6%)	32 (25.6%)	11 (8.8%)
Pa mor hawdd ydy hi i ddarllen a defnyddio'r adran hon?	6 (4.8%)	10 (8%)	33 (26.4%)	34 (27.2%)	25 (20%)	17 (13.6%)

Y ddwy elfen fwyaf defnyddiol yn eu barn hwy oedd y pwyslais ar ddull ysgol gyfan (11.2) a sefydlu ymagweddau gwrth-fwlio yn y cwricwlwm (11.6 ac 11.7). Roeddent hefyd yn croesawu'r ffocws ar ymddygiad cadarnhaol, caredigrwydd, magu cydnerthedd, a chyfeiriadau at ymarfer adferol.

'Hoffi ei fod yn cydnabod bod diwylliannau ysgol cefnogol yn well na digwyddiadau un-tro.'

'Rydyn ni'n teimlo bod dulliau cwricwlaidd yn allweddol gydag ymyriadau eraill i gyfoethogi.'

I'r gwrthwyneb, teimlai bron un o bob tri chyfranogwr (36%) nad yw'r adran hon yn ddefnyddiol nac yn hawdd ei darllen a'i defnyddio (34.4%). Roedd beirniadaeth yn cynnwys bod y testun yn rhy amleiriog ac ailadroddus. Teimlai eraill mai 'atal' yw'r adran bwysicaf gan ddadlau y dylai gael ei lleoli'n gynharach yn y ddogfen. Yn ogystal ag adnoddau a roddodd wybodaeth bellach drwy'r pecyn cymorth ar-lein, roedd cyfranogwyr hefyd yn dymuno cyrchu adnoddau dysgu dwyieithog ac enghreifftiau o arfer ataliol effeithiol.

'Dyma adran bwysicaf y canllawiau. Dylai gael ei gwella a bod yn fanylach!'

'Mae'r brawddegau'n rhy hir; angen bod yn fyrrach ac yn gliriach e.e. yn adran 11.2, mae'r dull ar sail geiriau'n cael ei ddefnyddio sawl gwaith.'

'Llawer o gynnwys defnyddiol, ond mae'r adran yn ei chrynswth yn rhy amleiriog.'

'Mae'r adran 'Cyfathrebu effeithiol' yn ddefnyddiol ond mae angen ei golygu.'

'Mae'n cynnwys enghreifftiau dyddiedig e.e. cyfeiriad at lyfr 2002.'

'Byddai'n ddefnyddiol gwahanu atal ac ymyrryd i greu diwylliant o ddathlu a pharch. Ddim yn meddwl bod yn adran hon yn gwneud cyfiawnder yn nhermau dull ysgol gyfan at waith gwrth-fwlio.'

'Oes modd i ni gael adnoddau Cymraeg hefyd?'

'Angen mynediad at fersiynau Cymraeg o adnoddau fel rhai'r Gynghrair Gwrth-fwlio.'

'Mae arnon ni angen mwy o gysylltiadau ag adnoddau defnyddiol a dulliau llwyddiannus e.e. enghreifftiau Estyn o arfer da.'

Roedd yr awgrymiadau am welliannau'n cynnwys:

- esbonio sut mae gwaith sy'n gysylltiedig â gwrth-fwlio yn cydategu gofynion y cwricwlwm; yn arbennig i un o'r pedwar pwrpas, sef i gefnogi'n plant a phobl ifanc i fod yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i arwain bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, yn ogystal â Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant
- rhoi enghreifftiau o arfer gorau wrth sefydlu ymagweddau cwricwlaidd yn llwyddiannus gan gynnwys sut mae gwaith gwrth-fwlio yn cael ei ddwyn i mewn i bob maes y cwricwlwm lle bo'n briodol a sut mae cyd-barch yn cael ei hyrwyddo ar draws y cwricwlwm
- trefnu bod adnoddau dysgu dwyieithog am atal bwlio ar gael drwy'r pecyn cymorth ar-lein i gynorthwyo wrth gynllunio gwersi
- darparu enghreifftiau strategaethau atal ysgol-gyfan effeithiol fel cyfeillio, mentora, pwyllgor gwrth-fwlio/llesiant, ymarfer adferol, ceidwaid heddwch y maes chwarae, amser cylch, gwersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ar gydberthnasoedd personol a boreau cydlyniant cymunedol
- cynnig awgrymiadau am gyfranogiad disgyblion e.e. rhaglenni dan arweiniad cymheiriaid a mentora
- darparu astudiaethau achos i ddangos sut mae ysgolion yn casglu data mewn perthynas â bwlio i lywio ac addasu eu strategaethau atal
- darparu cyfeiriadur o raglenni ar sail tystiolaeth a chysylltiadau ag asiantaethau allanol am gymorth a chynghor
- esbonio rolau ataliol cymheiriaid, gwylwyr a rheini'n llawnach

'Mae angen cysylltu'r adran hon â diwygiadau i'r cwricwlwm.'

'Mae atal yn canolbwyntio ar ymddygiadau a dylanwadau diwylliannol ar ymddygiad ysgol. Normaleiddio amrywiaeth gyda delweddau positif mewn ysgolion a thrwy'r iaith mae staff a disgyblion yn ei defnyddio.'

Mae'r canllawiau'n adweithiol ac mae angen mwy am ddatblygu atal a diwylliant ysgol o gyd-barch.'

‘Mae newid ethos/diwylliant ysgol yn anodd ei gyflawni. Dylai’r canllawiau bwysleisio’r angen i gasglu data i lywio a theilwra ymyrraeth/atal.’

‘Dim digon o bwyslais ar ba mor bwysig ydyw bod staff yn dangos, staff tuag at ddisgyblion, a staff tuag at staff.’

‘Byddai gofyn i ysgolion gael cynllun gweithredu gwrth-fwlio/atal yn gwneud monitro yn haws/ yn fwy pwrpasol.’

3.1.e Adran; Ymateb pan fo bwlio yn digwydd

Dyweddodd tuag un o bob tri chyfranogwr (33.6%) fod yr adran hon yn ddefnyddiol ac yn hawdd ei darllen a'i defnyddio (32%) – gweler tabl 5. Yn benodol, roeddent yn croesawu'r dull cynhwysol ysgol gyfan, yr ymrwymiad i hyfforddi staff, yr angen am ymateb priodol a'r anogaeth i ddefnyddio pob digwyddiad bwlio penodol fel cyfle dysgu. Teimlai rhai fod yna gyfle i gryfhau cyfeiriadau at y PSED, ac yn arbennig, yr angen i ysgolion yng Nghymru ddileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da ar draws pob nodwedd warchoddedig.

Tabl 5						
Pleidlais y grŵp (n = 125)	dim ateb	1 'dim o gwbl'	2	3	4	5 'yn fawr iawn'
Pa mor ddefnyddiol ydy'r adran hon i chi?	13 (10.4%)	1 (0.8%)	33 (26.4%)	36 (28.8%)	42 (33.6%)	0 (0%)
Pa mor hawdd ydy hi i ddarllen a defnyddio'r adran hon?	27 (21.6%)	0 (0%)	21 (16.8%)	37 (29.6%)	27 (21.6%)	13 (10.4%)

Roeddent yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau at ffurflenni cofnodi digwyddiadau bwlio enghreifftiol, ac er eu bo dyn hoffi'r ystod o enghreifftiau ymarferol a roddwyd (12.5), teimlai rhai y gallai'r ymadrodd *'rhyw broblem ehangach...'* gael ei ddisodli gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs).

Hefyd dywedwyd bod yr enghreifftiau 'Routes to Report' yn ddefnyddiol iawn ac awgrymwyd ychwanegu:

- Swyddogion Llesiant Addysg
- gweithwyr ieuencid fel oedolion annibynnol, amgen
- defnyddio dyfais electronig, ap, neu system â'n ar-lein e.e. e-bost fel dull (digidol) o adrodd pryder

- *‘Dylai fod gan ysgolion adran yn eu polisi sy’n esbonio sut gall plant a/neu rieni adrodd digwyddiadau bwlio ar-lein.’*
- *‘Sut all pob dysgwr adrodd eu pryderon yn arbennig dysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol a’r sawl ag anghenion dysgu ychwanegol?’*

Nodwyd hefyd yr heriau ariannol mae ysgolion yn eu hwynebu wrth gefnogi targedau bwlio.

‘Mae problemau ariannol o ran goblygiadau ymarferol ysgolion yn cynnig ystod o ddulliau i ddysgwyr adrodd bwlio, er enghraifft, diffyg mynediad at gefnogaeth, dim nyrs ysgol, Pennaeth Blwyddyn yn cyflenwi am dri grŵp blwyddyn. Mae cyllidebau diffygiol yn cyfyngu ymyriadau.’

‘Nid oes gan ysgolion ddigon o adnoddau bob amser i ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion unigol e.e. therapi, Gwasanaethau Teuluol.’

Croesawodd cyfranogwyr y cyngor a roddwyd am gofnodi a chadw tystiolaeth o ddigwyddiadau o fwlio (12.9) gan bwysleisio’r angen am hyfforddiant staff sicrhau bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu. Roedd un grŵp yn eiriol yn benodol i feddalwedd diogelu [‘My Concern’](#) fod ar gael i holl ysgolion Cymru.

‘Rydyn ni’n hoffi ei fod yn pwysleisio na ddylai ymateb yr ysgol fod yn brin o ddidwylledd.’

‘Angen cynnwys sut mae ysgolion yn ymateb i ddigwyddiadau un-tro a syniadau am wneud hynny’n effeithiol.’

Teimlai lleiafrif o gyfranogwyr (27.2%) nad oedd yr adran hon yn ddefnyddiol gan y dylai’r testun rhagarweiniol (12.1) fod yn fwy cynhwysol a phendant. Awgryment y dylai holl staff ysgol wybod pa weithdrefnau i’w dilyn. Teimlent hefyd fod angen mwy o ganllawiau a hyfforddiant ar staff am gofnodi digwyddiadau bwlio a chadw tystiolaeth; yn arbennig, efallai y bydd angen sicrwydd ar staff yng ngoleuni gofynion Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) a goblygiadau cyfreithiol posibl edrych ar ddelweddau o natur rywiol a storio tystiolaeth o’r fath yn ddigidol.

‘Nid yw ymwybodol yn ddigon. Mae angen i hyfforddiant cadarn gael eu gweithredu ar gyfer pob aelod staff.’

‘Gallai edrych ar dystiolaeth/delweddau electronig/digidol a’u cadw adael staff yn agored i weithredu cyfreithiol.’

‘Ai llungopiwr yw’r ffordd orau i gipio tystiolaeth mewn gwirionedd? Oes modd iddi gael ei chyflwyno fel tystiolaeth os bydd euogfarn droseddol yn cael ei dilyn?’

Roeddent yn awgrymu hefyd cynnwys mwy o fanylion am gefnogi targed bwlio ar ôl y datgelu cychwynol. Eu hawgrym oedd cynnwys siart llif i amlinellu dull haenog; cefnogaeth gynhwysol, cymorth pwrpasol, cyfranogiad gwasanaethau arbenigol. Yn yr un modd, hoffai rhai weld pwyslais cryfach ar gynnwys rhieni/gofalwyr a ffrindiau. Argymhellodd un grŵp gynnwys is-adran ‘Llwybrau tuag at ddatrys’ hefyd gydag awgrymiadau o ddulliau posibl fel cyfryngu ac arfer adferol.

Awgrym arall oedd egluro rôl gwylwyr, effaith bod yn dyst i ddigwyddiadau bwlio arnynt a chydabod eu hanghenion cymorth hwy. Yn olaf, teimlai rhai y dylai’r testun ‘Y Camau Nesaf’ (12.10) gael ei ddatblygu i bwysleisio’r angen, beth bynnag natur unigol pob achos, i roi gwybod i darged bwlio am y camau sy’n cael eu cymryd.

‘Beth yw ymagwedd/ymateb priodol? Cawn ni enghreifftiau o strategaethau llwyddiannus?’

‘Os bydd bwlio’n digwydd tu allan i’r ysgol, mae angen i rieni wybod i bwy i’w adrodd gan y bydd yr ysgol o bosib yn dweud nad eu cyfrifoldeb nhw ydy e. Nid yw’r canllawiau’n glir.’

‘Ystyriwch gael graddfa goleuadau traffig i gofnodi lefel difrifoldeb digwyddiadau bwlio e.e. mae gwrthio’n llai difrifol na dyrnu; mae disgybl blwyddyn 11 yn bwlio disgybl blwyddyn 7 yn fwy difrifol na disgybl blwyddyn 7 yn bwlio disgybl arall blwyddyn 7.’

Adborth cyffredinol arall a dderbyniwyd am y canllawiau drafft:

Teimlai rhai cyfranogwyr fod angen i deitl y canllawiau drafft fod yn fwy cynhwysol e.e. ‘Ysgolion a lleoliadau addysg eraill’, er mwyn cynnwys lleoliadau fel Unedau Cyfeirio Disgyblion a darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Hefyd pwysleisiodd cyfranogwyr y dylai pwysigrwydd gofyn i ddysgwyr am eu barn a’u safbwyntiau gael ei bwysleisio trwy gydol y canllawiau.

Bwridd un grŵp amheuaeth ar ddefnydd y term ‘anabledd a pherson anabl’ (fel y’u diffinnir yn yr adran ‘Termau a ddefnyddir’). Dadleuent nad yw anabledd a pherson anabl yr un peth o safbwynt model cymdeithasol o anabledd. Gan fod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu model cymdeithasol o anabledd, mae angen i’r iaith/derminoleg a ddefnyddir yn y canllawiau adlewyrchu hyn (gweler Fframwaith Gweithredu ar Anabledd Llywodraeth Cymru).

3.2 Archwilio'r pecyn cymorth ar-lein ategol ac adolygu adnoddau

Ar gyfer Gweithdy 2, dyrannwyd cyfranogwyr i grŵp trafod o hyd at chwech o bobl. Rhoddwyd cyflwyniad byr i'r pecyn cymorth ar-lein i bob grŵp, sut mae ei lywio, ei fformat a'i gynnwys, ynghyd â chopïau caled o adnoddau dethol o un o adrannau'r pecyn cymorth i edrych arnynt yn fanwl. Yr adrannau a ddewiswyd oedd:

- Mathau penodol o fwlio a bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn
- Ymateb pan fo bwlio yn digwydd

Gofynnwyd i bob grŵp enwebu cadeirydd, llefarydd a sgrifellwr. Yna gofynnwyd iddynt adolygu'r adnoddau a ddewiswyd ac ymateb i'r cwestiynau ymgynghori. Yn dilyn trafodaeth, cafodd pwyntiau allweddol pob grŵp eu crynhoi a rhoddant drosolwg o'r trafodaethau i'r gynulleidfa gyfan yn ystod sesiwn llawn.

3.2.a Y pecyn cymorth ar-lein ategol

Teimlai'r mwyafrif o gyfranogwyr (52.2%) y byddai'r pecyn cymorth yn ddefnyddiol i ategu gweithrediad y canllawiau – gweler tabl 6. Roeddent yn hoffi'r egwyddor o gael storfa ganolog ar gyfer dogfennau ac adnoddau perthnasol ac yn teimlo bod y pecyn cymorth yn hawdd ei lywio. Fodd bynnag, nodant angen i egluro a yw adnoddau'r pecyn cymorth yn cael eu hargymell/cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru neu a ydynt yn cael eu cynnig dim ond fel adnoddau dewisol. Os yr olaf, yna awgrymant y byddai o fudd rhoi rhybudd rhagarweiniol fod yr adnoddau yn y pecyn cymorth yn rhai dewisol a heb eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Tabl 6¹ Oherwydd talgrynnu, mae'n bosib nad yw canrannau bob amser yn adio i 100% yn ôl pob golwg.

(n = 115)	Dim ateb	1 'dim o gwbl'	2	3	4	5 'yn fawr iawn'
Pa mor ddefnyddiol ydy'r pecyn cymorth i chi wrth gefnogi cymhwysiad ymarferol y canllawiau gwrth-fwlio?	17 (14.8%)	1 (0.9%)	6 (5.2)	31 (27%)	49 (42.6%)	11 (9.6%)

Cododd cyfranogwyr ystyriaethau pwysig ynghylch cysondeb y neges a'r iaith. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, teimlent fod angen i groesgyfeiriadau o'r canllawiau i adnoddau'r pecyn cymorth fod yn gywir. Yn bwysicach, teimlent fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau, fel egwyddor gyffredinol i osgoi dryswch, bod gwybodaeth a geir yn adnoddau'r pecyn cymorth yn gyson â'r canllawiau. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon nad oedd gan Lywodraeth Cymru reolaeth olygyddol uniongyrchol dros lawer o'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd drwy'r pecyn cymorth. Dadleuent hefyd fod angen trosolwg rhagarweiniol byr

o unrhyw gorff sy'n gyfrifol am adnodd sy'n cael ei gynnwys yn y pecyn cymorth a safbwynt penodol y corff hwnnw ar faterion gwrth-fwlio.

Pan fynegwyd barn, roedd y mwyafrif o'r farn y dylai penawdau'r pecyn cymorth gyd-fynd â phenawdau penodau'r canllawiau er mwyn lleihau dryswch.

'Mae'r adrannau'n ddefnyddiol ond dwi ddim yn siŵr pam nad ydyn nhw'n cyd-fynd â phenawdau penodau'r yn y canllawiau.'

'Sicrhewch fod teitlau'r adnoddau yn y pecyn cymorth yn gyson â'r rhai sydd yn y canllawiau.'

Roeddent yn croesawu'r ffaith y byddai mynediad agored i'r pecyn cymorth ac yn cydnabod er y bydd yr Hwb yn gyfarwydd i ymarferwyr, roeddent yn awgrymu bod angen testun cyflwyniadol ar y dudalen lanio ar gyfer defnyddwyr tro cyntaf a ddylai ddatgan bod angen iddynt ddarllen y canllawiau gwrth-fwlio cyn defnyddio'r pecyn cymorth ar-lein er mwyn cael dealltwriaeth lawnach. I hwyluso hyn, roeddent yn argymhell cael hyperddolenni cilyddol o'r pecyn cymorth i bennod berthnasol y canllawiau. Hefyd roeddent yn cydnabod yr angen i ystyried sut i hyrwyddo'r pecyn cymorth i staff tu allan i addysg e.e. nyrsys ysgol, gweithwyr ieuenctid, cwyselwyr ac yn y blaen.

Teimlent fod y rhan fwyaf o gynnwys presennol y pecyn cymorth yn fwy perthnasol i uwch arweinwyr a bod adnoddau dysgu'n brin. Pan fydd adnoddau ystafell ddosbarth wedi eu cynnwys (e.e. gweithgareddau cardia) mae angen gwybodaeth ategol arnynt ar gyfer athrawon am sut i ddefnyddio ac addasu'r adnodd ar gyfer gwahanol oeddrannau. Teimlai cyfranogwyr fod angen rhesymoli'r cynnwys i'w wneud yn haws i ddefnyddwyr nodi'r adnodd mwyaf priodol yn gyflym. Ymhlith yr awgrymiadau a roddwyd i nodi cynnwys roedd defnyddio is-benawdau i wahanu dogfennau sy'n ymwneud â'r canllawiau rhag adnoddau dysgu ac ychwanegu crynodeb byr o bob adnodd.

Yn ogystal, ar gyfer pob adnodd/dogfen yn y pecyn cymorth, teimlent ei bod yn bwysig nodi'r gynulleidfa(oedd) targed e.e. am ddatblygiad proffesiynol staff neu i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth gyda disgyblion. Roeddent hefyd yn pwysleisio'r angen i gynnwys y pecyn cymorth gael ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn ei gadw'n gyfredol ac yn berthnasol. Holodd cyfranogwyr am sut y bydd diweddariadau ac adnoddau newydd yn y pecyn cymorth yn cael eu cyfathrebu i ysgolion a rhanddeiliaid eraill. Holant hefyd a fydd pecynnau cymorth tebyg yn cael eu llunio am bob sector gan gynnwys llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr. Os felly, sut bydd rhieni a rhanddeiliaid eraill yn cael eu hysbysu?

Mae enghreifftiau o adborth cadarnhaol yn cynnwys:

'Mae'n beth positif i gael yr holl adnoddau mewn un man canolog.'

‘Yn y cyfnod byr roedden ni’n gallu cyrchu’r pecyn cymorth, roedd yn ymddangos yn hawdd ei ddefnyddio a’i lywio. Mae’n haws ei lywio na’r mwyafrif o safleoedd Llywodraeth Cymru.’

‘Mae’n grêt bod yr adnodd yn fyw ac yn gyfredol.’

Roedd sylwadau llai ffafriol yn cynnwys:

‘Ar ôl cael ei orffen mae’n bosib y bydd gormod o gynnwys ac felly’n llyncu cryn dipyn o amser i ddod o hyd i’r eitem rydych chi’n chwilio amdani.’

‘Rhy ddryslyd, gormod o gynnwys, gormod o ddolenni sy’n arwain at deimlad o foddi, cael eich gorlwytho a’ch llethu gan wybodaeth. O safbwynt pennaeth, sut fyddan nhw’n gallu dod o hyd a dethol yr adnodd neu’r cyngor mwyaf priodol/defnyddiol yn gyflym?’

‘Mae’r dewislenni’n syml ond mae’n bosib y bydd angen tipyn o amser o hyd i ddod o hyd i’r ddogfen gywir.’

‘Mae’n edrych petai’r wefan wedi ei gorlenwi â dolenni a dogfennau polisi; gall hynny ddigalonni rhywun.’

‘Mae angen nodiadau cyfarwyddyd ar yr adnoddau i esbonio sut allan nhw gael eu defnyddio.’

‘Mae angen i’r pecyn cymorth ganolbwyntio’n gryfach ar adnoddau i athrawon eu defnyddio gyda dysgwyr.’

‘Nid yw’n atgyfnerthu cynnwys y canllawiau’n arbennig; mae ar athrawon angen mynediad i adnoddau ystafell ddosbarth.’

‘Defnyddiwch is-benawdau i drefnu’r cynnwys ynghyd â chrynodeb/disgrifiad o bob adnodd nid dim ond hyperddolen ar sail teitl y ddogfen.’

Roedd rhyw chwarter o’r cyfranogwyr (27.8%) yn fodlon ar hygyrchedd y pecyn cymorth – gweler tabl 7. Teimlent ei bod yn ddefnyddiol gwybod pa adnoddau ategol sydd ar gael am bob adran y canllawiau, ac mae’n gadarnhaol cael cydbwysedd o ddogfennau sy’n gysylltiedig â chanllawiau ac adnoddau ystafell ddosbarth.

Tabl 7						
(n = 115)	Dim ateb	1 ‘dim o gwbl’	2	3	4	5 ‘yn fawr iawn’
Pa mor hygyrch ydy’r pecyn cymorth?	30 (26.1%)	8 (7%)	14 (12.2%)	31 (27%)	20 (17.4%)	12 (10.4%)

Pwysleisient yr angen i sicrhau bod gofynion y cwricwlwm newydd yn cael eu hystyried wrth ddethol adnoddau. Roeddent yn pwysleisio y bydd angen i unrhyw adnoddau gysylltu â'r pedwar diben craidd a chael eu croesgyfeirio at y chwe Maes Profiadau Dysgu (AOLEs) lle bo'n briodol, yn benodol Maes Profiad Dysgu Iechyd a Llesiant, a'r cwricwlwm Addysg Cydberthnasoedd a Rhywioldeb.

Teimlai lleiafrif bach o gyfranogwyr fod cynnwys y pecyn cymorth yn llai hygyrch. Prif ffynhonnell y feirniadaeth oedd yr ystod o ddelweddau a ddefnyddiwyd, a ddangosai'n bennaf pobl ifanc yn defnyddio dyfeisiau digidol. Awgryment ddefnyddio ystod fwy amrywiol o ddelweddau ledled y pecyn cymorth i adlewyrchu'r gwahanol fathau o fwlio a chymunedau yng Nghymru, yn ogystal ag ystod oedran ehangach a chydbwysedd rhwng y rhywiau. Awgrym arall oedd bod angen i'r iaith a ddefnyddir yn y pecyn cymorth a dogfennau adnoddau fod yn gynhwysol a hyrwyddo cydraddoldeb. Yn yr un modd, pwysleisiodd grwpiau Cymraeg fod rhaid i'r holl adnoddau yn y pecyn cymorth, a lle bo'n briodol y dolenni, fod ar gael yn y Gymraeg.

'Angen gwneud y delweddau'n gynhwysol fel bod pob sector y gymuned yn cael ei gynrychioli.'

'Yn edrych yn dda ond ydy'r lluniau yn cynrychioli ystod amrywiol o bobl?'

'Ydy'r delweddau'n cynrychioli cymdeithas? Er enghraifft, plant ag anableddau a phlant o ddiwylliannau gwahanol.'

Canolbwyntiodd adborth arall ar elfennau'r dyluniad, yn enwedig bod y ffont a ddefnyddir yn rhy fach a'r testun llwyd yn anodd ei ddarllen yn erbyn cefndir gwyn. Awgryment ddefnyddio delweddau llai o faint i ddarparu mwy o le am destun mewn ffont mwy. Ymhlith y gwelliannau eraill a awgrymwyd oedd:

- cynnig dewis sain ar gyfer defnyddwyr â nam ar eu clyw
- asesu'r lefelau llythrennedd i wneud y cynnwys yn hygyrch i rieni/gofalwyr
- sicrhau bod y pecyn cymorth yn gydnaws â meddalwedd darllen sgrin e.e. JAWS
- darparu swyddogaeth chwilio
- cynnwys cyfleuster i ddefnyddwyr awgrymu adnoddau ychwanegol a'r dolenni
- datblygu fersiwn o'r pecyn cymorth sy'n addas ar gyfer ffôn symudol/llechen
- ystyried datblygu cynnwys mewn ystod o ieithoedd lleiafrifoedd ethnig

Awgrymiadau eraill am gynnwys ychwanegol oedd:

- rhagor o ffocws ar adnoddau i gefnogi gweithgarwch atal, meithrin perthnasoedd, cydnerthedd a datrys anghydfodau
- astudiaethau achos o arfer da yn nhermau ysgolion yn darparu cymorth gwrth-fwlio

- darnau ffilm o bobl ifanc yn disgrifio eu profiadau ac yn esbonio sut mae eu hathrawon/ysgol yn eu cefnogi a'r canlyniadau.

3.2.b Mathau penodol o fwlio a bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn

Adolygwyd tri adnodd o adran 'Mathau penodol o fwlio a bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn' y pecyn cymorth, sef:

- Approach to sexual bullying (Womankind)
- Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â bwlio gwahaniaethol (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)
- Bwlio ar sail hunaniaeth: beth mae angen i athrawon ei wybod ac awgrymiadau gwyb ar gyfer defnyddio Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Comisiynydd Plant Cymru)

Adnodd 1: Approach to sexual bullying (Womankind)

Adnodd (n = 54)	Pa mor ddefnyddiol ydy'r adnodd hwn i chi?					
	dim ateb	1 'dim o gwbl'	2	3	4	5 'yn fawr iawn'
Ymagwedd at fwlio rhywiol	3 (5.6%)	15 (27.8%)	20 (37%)	8 (14.8%)	8 (14.8%)	0 (0%)

Teimlai bron dau o bob tri chyfranogwr (64.8%) nad oedd yr adnodd hwn yn ddefnyddiol - gweler tabl 8. Beirniadaeth gyffredin oedd teitl y ddogfen (ac enw'r corff a'i cynhyrchodd). Y canfyddiad oedd bod 'Womankind' yn defnyddio 'iaith awgrymog', gan awgrymu bod yr wybodaeth yn cyfeirio at fenywod yn unig. Teimlai cyfranogwyr y dylai adnodd o'r fath fod yn berthnasol i bob unigolyn, yn niwtral o ran rhywedd ac yn fwy cynhwysol ei iaith. Teimlent hefyd y dylai ddatgan yn glir na yw bwlio rhywiol byth yn dderbyniol.

Gwrthwynebiad mawr oedd nad yw'r ddogfen yn ymwneud â chyd-destun polisi Cymru. Er enghraifft, teimlent y dylai adnodd o'r fath ymwneud â Chynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, a chyfeirio at [Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015](#) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ardal ddiogelu ranbarthol lunio strategaeth leol Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol. Yn yr un modd, mae angen i adnodd o'r fath gyfeirio at y gofyniad i addysgu am gydberthnasoedd personol iach yng Nghymru.

'Mae gennym ni bryderon difrifol am y ddogfen yma. Teimlwn ei bod yn codi mwy o bryderon na bod yn offeryn defnyddiol ar gyfer gwaith gwrth-fwlio. Credwn y byddai llawer o'r wybodaeth hon yn dod o fewn ymddygiad troseddol ac ni ddylai fod yn gyfrifoldeb polisi gwrth-fwlio ysgol.'

'Cam yn ôl mewn amser, dogfen ddiflas yr olwg na ddylai hi fod yn y pecyn cymorth.'

'Mae'r diffiniad o fwlio rhywiol yn defnyddio rhywedd a rhywioldeb yn ymglyfnewidiol pan maen nhw'n ystyriaethau gwahanol.'

'Mae cyffwrdd yn rhywiol yn gamdriniaeth a dylai'r polisi gwrth-fwlio roi'r pwys arno mae'n ei haeddu.'

Serch hynny, roedd lleiafrif o'r farn bod y ddalen wybodaeth A4 sengl yn ddefnyddiol ac yn gryno. Roeddent yn credu bod y diffiniad o fwlio rhywiol yn glir ac yn teimlo bod yr adnodd yn rhoi cyfeiriad i ysgolion ar gyfer sut y dylent ymateb i fwlio rhywiol. Er i enghreifftiau defnyddiol gael eu darparu, teimlai cyfranogwyr fod angen cysylltu'r testun â phawb - bechgyn, merched, LGBT, a phobl ifanc anneauaid a thrawsrywiol. Awgryment hefyd gynnwys enghreifftiau o alw enwau rhywiol sy'n cyfeirio at fechgyn, LGBT, ac unigolion anneauaid a thrawsrywiol er mwyn atgyfnerthu bod y mater hwn yn berthnasol i bob person ifanc. Byddai rhoi teitl mwy addysgiadol yn ddefnyddiol, fel y byddai ychwanegu gwybodaeth gryno am Womankind a doler â gwefan y sefydliad fel troednodyn i roi cyd-destun cliriach i'r ddogfen.

Adnodd 2: Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â bwlio gwahaniaethol (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Teimlai tua dau o bob tri chyfranogwr (66.7%) fod yr adnodd hwn yn ddefnyddiol ac yn briodol i'r ystod lawn o leoliadau addysgol - gweler tabl 9. Roeddent o'r farn bod ei drefn yn hawdd ei defnyddio a'r iaith yn bendant e.e. defnydd 'rhaid'. Cafodd yr esboniad o Ddyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) ei groesawu, fel yr oedd y pwyslais ar ddatblygu dull ysgol gyfan a'r cyngor ymarferol. Fodd bynnag, er bod y PSED yn cyfeirio'n benodol at y nodweddion gwarchoddedig, rhesymai rhai cyfranogwyr fod amrywiaeth a hunaniaeth bersonol yn mynd y tu hwnt i hyn, er enghaifft, gothiaid, llysiuwyr ac ati. Yn ogystal, mae'r ddogfen yn cyflwyno ac yn canolbwyntio ar fwlio gwahaniaethol tra bod y canllawiau yn defnyddio'r term 'bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn' yn bennaf a allai, yn eu barn hwy, arwain at ddryswch i'r darlennydd.

'Mae anghysondeb yn y derminoleg; mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio bwlio ar sail rhagfarn ond mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn defnyddio bwlio ar sail hunaniaeth.'

Tabl 9

Adnodd (n = 54)	Pa mor hawdd ydy hi i ddarllen a defnyddio'r adran hon?					
	dim ateb	1 'dim o gwbl'	2	3	4	5 'yn fawr iawn'
Cynghorion ar ymdrin â bwlio gwahaniaethol	4 (7.4%)	0 (0%)	3 (5.6%)	11 (20.4%)	36 (66.7%)	0 (0%)

Teimlai cyfranogwyr fod angen egluro pwrpas yr adnoddau sydd ar gael yn y pecyn cymorth; a ydynt yn bennaf i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon o'r mater dan sylw neu i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y byddai'r adnodd hyn yn cael ei gydategu drwy gael adnoddau ychwanegol i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth i drafod bwlio gwahaniaethol â disgyblion. Mae enghreifftiau o adborth yn cynnwys:

'Mae'r ddogfen yma'n iawn. Ond rydyn ni'n teimlo y byddai ar ei helw petai ganddi ddolenni ag adnoddau ar-lein ar gyfer yr ystafell ddosbarth.'

'Mae angen diffiniad clir o fwlio gwahaniaethol yn ogystal ag adran sy'n cysylltu â'r cwricwlwm ac adnoddau addysgu.'

'Gallai'r ddogfen arwyddbostio'n gliriach ble i gael adnoddau ychwanegol.'

'Gallai defnydd y gair 'banter' yn yr adnodd yma wrthdaro â sut mae'r gair yma'n cael ei ddefnyddio yn y canllawiau. Gallai rhieni amddiffyn beth mae eu plentyn wedi ei wneud fel 'banter.'

Adnodd 3: 'Stori Sam – fe fydd e'n gwella' (Comisiynydd Plant Cymru)

Tabl 10						
Adnodd (n = 54)	Pa mor ddefnyddiol ydy'r adran hon i chi?					
	dim ateb	1 'dim o gwbl'	2	3	4	5 'yn fawr iawn'
Stori Sam bwlio ar sail hunaniaeth: beth mae angen i athrawon ei wybod ac awgrymiadau gwych ar gyfer defnyddio Dyletswydd	14 (25.9%)	1 (1.9%)	12 (22.2%)	27 (50%)	0 (0%)	0 (0%)

Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus						
---------------------------------	--	--	--	--	--	--

Roedd adborth cyfranogwyr yn gymysg am yr adnodd hwn. Er i'r esboniad o Ddyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) gael ei groesawu, teimlai rhai fod angen trafodaeth bellach am 'beth ydy gwir ystyr hunaniaeth' Eu barn hwy oedd ei bod yn cynnwys, yn ogystal â'r nodweddion gwarchoddedig, cefndir diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd unigolyn. O ganlyniad, dylai bwlio ar sail hunaniaeth gynnwys bwlio oherwydd cefndir cymdeithasol hefyd, dadleuent. Codwyd pryderon hefyd am gynhwysedd yr iaith a ddefnyddir yn y ddogfen. Roedd enghreifftiau o adborth yn cynnwys:

'Credwn fod angen i unrhyw adnodd sy'n cael ei gynnwys yn y pecyn cymorth ar-lein fod yn sensitif iawn a sicrhau bod pob agwedd ar gydraddoldeb yn cael ei thrafod. Mae enghreifftiau sy'n cael eu rhoi yn yr adnodd yma'n cyfeirio at ferched yn dioddef cyffwrdd di-eisiau ond fe ddylai sicrhau ei fod yn cynnwys bechgyn hefyd.'

'Mae'r diffiniad o fwlio ar sail hunaniaeth yn dda ond mae'r enghaifft yn cyfeirio at ferched yn unig. Dylai gyfeirio at unrhyw un sy'n destun cyffwrdd di-eisiau.'

'Nid bwlio yw merched yn dioddef cyffwrdd rhywiol di-eisiau. Mae'n anghyfreithlon a dylai athrawon gymryd camau priodol h.y. peidio â thrin aflonyddu neu ymosod rhywiol fel bwlio.'

'Os caiff plentyn ei dargedu oherwydd ei ethnigrwydd yna mae'n drosedd casineb nid bwlio.'

'Yn atgyfnerthu negeseuon y canllawiau ymhellach – ond ydy'r adnodd yn ychwanegu unrhyw beth?'

Teimlai rhai cyfranogwyr fod teitl yr adnodd *'Stori Sam – fe fydd e'n gwella'* yn gamarweiniol am eu bod yn rhagweld cael adnodd a allai gael ei ddefnyddio i drafod bwlio ar sail hunaniaeth â disgyblion yn yr ystafell ddogfen. Hefyd, yn yr un modd â'r adnodd blaenorol, mae'r ddogfen yn cyflwyno ac yn canolbwyntio ar y term bwlio ar sail hunaniaeth tra bod y canllawiau yn defnyddio'r term 'bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn' yn bennaf, a allai arwain at ddryswch i'r darlennydd.

Enghaifft arall o anghysondeb â'r canllawiau a amlygwyd oedd bod yr adnodd yn datgan y bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, ar gyfer 2017–2019, yn monitro'r camau a gymerir gan awdurdodau lleol i ymdrin â bwlio ar sail hunaniaeth mewn

ysgolion. Fodd bynnag, nid yw adran 14 y canllawiau gwrth-fwlio ‘Adnabod bwlio – adrodd, cofnodi, a monitro’ yn disgrifio unrhyw ofyniad o’r fath i ysgolion adrodd digwyddiadau o fwlio ar sail hunaniaeth i’w hawdurdod lleol. Gan hynny, cwestiynodd cyfranogwyr y gofynion adrodd statudol sy’n ofyniad ar awdurdodau lleol ac amlygu heriau ymarferol monitro bwlio ar sail hunaniaeth gan awdurdodau lleol. Mae gan ysgolion eu cynlluniau cydraddoldeb strategol eu hun sydd, yn ôl yr adroddiad, yn amrywio’n helaeth, felly teimlai cyfranogwyr ei bo dyn anodd iawn goladu a dadansoddi data ar lefel yr awdurdod lleol.

3.2.c Ymateb pan fo bwlio’n digwydd

Adolygwyd pedwar adnodd o adran ‘Ymateb pan fo bwlio’n digwydd’ y pecyn cymorth, sef:

- Ffurflen cofnodi digwyddiadau bwlio (Llywodraeth Cymru)
- Ffurflen cofnodi digwyddiadau bwlio ar-lein (Llywodraeth Cymru)
- Choose Respect (Y Gynghrair Gwrth-fwlio)
- Mynd i’r afael â hiliaeth mewn taflenni ffeithiau ar gyfer ysgolion (Llywodraeth Cymru a Dangos y cerdyn coch i hiliaeth)

Adnodd 1: Ffurflen cofnodi digwyddiadau bwlio (Llywodraeth Cymru)

Roedd adborth cymysg wrth ofyn i gyfranogwyr ‘Pa mor ddefnyddiol ydy’r adnodd hwn i chi?’ - gweler tabl 11.

Tabl 11						
Adnodd (n = 61)	Dim ateb	1 ‘dim o gwbl’	2	3	4	5 ‘yn fawr iawn’
Ffurflen cofnodi digwyddiad bwlio	3 (5%)	3 (5%)	15 (25%)	19 (31%)	16 (26%)	5 (8%)

Teimlai tuag un o bob tri (34%) fod yr adnodd yn ddefnyddiol ac yn gymharol hawdd ei gwblhau. Roeddent yn rhesymu, os oedd cyfarwyddiadau i’r canllawiau yn cael eu rhoi am pryd a sut i gwblhau’r ffurflen, byddai hyn o bosib yn arwain at gofnodi digwyddiadau bwlio yn fwy cyson o fewn ac ar draws ysgolion. Awgryment y dylai’r ffurflen adrodd bwlio fod ar gael ar systemau rheoli gwybodaeth ysgolion er mwyn olrhain disgyblion hawdd eu niweidio, yn arbennig os byddant yn symud ysgolion. Roedd enghreifftiau o adborth cadarnhaol yn cynnwys:

‘Mae angen ffurflen adrodd bwlio safonol ar gyfer pob ysgol.’

‘Mae angen i’r ffurflen hon fod yn rhan o weithdrefnau cofnodi ysgol.’

'Yn ddefnyddiol o'i defnyddio'n gyson ac mae'r holl ffurflen yn cael ei chwblhau. Ni ddylai fod yn ddewisol.'

'Mae'r fformat ticio blychau'n dda; yn cymryd llai o amser ond mae modd adio gwybodaeth ychwanegol os oes angen.'

'I gyflawni mwy o gysondeb, darparwch system adrodd bwlio generig, genedlaethol gyda chefnogaeth ariannol i'w gweithredu'n effeithiol.'

Ond teimlai tuag un o bob tri (30%) o gyfranogwyr nad oedd y ffurflen yn ddefnyddiol. Roeddent yn amau sut oedd ei rheoli a mynegant bryderon am sut y byddai'r ffurflen ar gael i staff ac yn cael ei storio ar yr un pryd â chadw cyfrinachedd dysgwyr, yn enwedig yng ngoleuni rheoliadau GDPR. Teimlent hefyd fod angen i'r ffurflen gael ei haddasu i gofnodi'r camau mae eu hangen i atal digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

'Angen canllawiau 'Camau nesaf' ar y ffurflen - pa wybodaeth sy'n cael ei phasio ymlaen ac i bwy e.e. i'r llywodraethwyr?'

'Mae angen i gamau dilynol a chanlyniadau gael eu monitro a'u cofnodi.'

Ymhlith y cwestiynau penodol a ofynnwyd oedd:

- Beth yw'r 'protocol digwyddiad difrifol'?
- Sut mae'r wybodaeth yn cael ei storio yn ffeil y disgybl?
- Oes modd i'r wybodaeth hon gael ei rhannu â rhieni/gofalwyr?

Adnodd 2: Cofnodi digwyddiadau bwlio ar-lein (Llywodraeth Cymru)

Unwaith eto roedd adborth yn gymysg wrth ofyn i gyfranogwyr *'Pa mor ddefnyddiol ydy'r adnodd hwn i chi?'* Teimlai tua chwarter (24%) fod yr adnodd yn ddefnyddiol – gweler tabl 12.

Tabl 12						
Adnodd (n = 61)	Dim ateb	1 'dim o gwbl'	2	3	4	5 'yn fawr iawn'
Ffurflen cofnodi digwyddiadau bwlio ar-lein	16 (26%)	9 (15%)	9 (15%)	12 (20%)	10 (16%)	5 (8%)

I'r gwrthwyneb, roedd 30% o gyfranogwyr o'r farn nad oedd yr adnodd yn ddefnyddiol. Roeddent yn cwestiynu'r angen i gael ffurflen ar wahân ar gyfer bwlio ar-lein a, thrwy estyniad, yn tybio y byddai angen cael ffurflenni ar wahân ar gyfer pob math arall o fwlio. Byddai hyn yn ei dro yn arwain at faich gwaith uwch a dyblygu gwybodaeth.

'Gormod o waith i staff gwblhau'r ddwy ffurflen; ddim yn gynaliadwy.'

'Oes angen ffurflen ar wahân? Rydyn ni'n teimlo na ddylai'r ffurflen bwlio ar-lein fod ar wahân.'

Roedd llawer o blaid cael un ffurflen adrodd digwyddiad bwlio safonol er mwyn osgoi dyblygu ac anghysondebau mewn geiriad ar draws y ddwy ffurflen. Roeddent yn awgrymu hefyd cael fersiwn electronig gyda chwymplenni. Drwy gadw dwy ffurflen ar wahân, pwysleisiant fod angen i'r fformat a'r termau a ddefnyddir fod yn gyson ar draws y ddwy ac mae angen i gyfarwyddiadau gael eu darparu am pryd a sut i gwblhau'r ffurflenni.

Ymhlith y pryderon penodol a'r cwestiynau a godwyd oedd:

- Mae angen i ffurflenni o'r fath fod yn hygyrch i amrediad o staff; ond mae gan hyn oblygiadau ar gyfer cyfrinachedd. Ble byddant yn cael eu storio a phwy fydd â mynediad iddynt?
- Sut mae hyn yn creu cysylltiad â phrotocolau diogelu ysgol?
- Sut caiff y ffurflen ei hadolygu a chan bwy? Sut fydd patrymau ymddygiad yn cael eu hadnabod?
- Pa ddarpariaeth sydd ar gael i gofnodi digwyddiad os nad bwlio gan un disgybl tuag at ddisgybl arall ydyw ond athro/athrawes tuag at ddisgybl?

Adnodd 3: Choose Respect (Y Gynghrair Gwrth-fwlio)

Tabl 13						
Adnodd (n = 61)	Dim ateb	1 'dim o gwbl'	2	3	4	5 'yn fawr iawn'
'Choose Respect' (Arfer Adferol ¹)	8 (13.1%)	6 (9.8%)	6 (9.8%)	14 (23%)	26 (42.6%)	1 (1.6%)

¹ Cafodd fersiynau copi caled yr adnodd hwn a ddefnyddiwyd yng Nghweithdy 2 eu styffylu yn y drefn anghywir a allai yn ei dro fod wedi cael effaith negyddol ar ganfyddiadau rhai cyfranogwyr o'r adnodd.

O'r cyfranogwyr a fynegodd farn, teimlai'r mwyafrif (44.2%) fod hyn yn gyflwyniad defnyddiol i arfer adferol, a bod yr enghreifftiau a roddwyd o gwestiynau adferol yn arbennig o ddefnyddiol. Roedd y sawl a deimlai fel arall yn teimlo hynny am nad oedd yr adnodd yn gysylltiedig â chyd-destun Cymru, nad oedd yn ar gael yn ddwyieithog a bod y gynulleidfa darged yn aneglur.

'Ddim yn benodol i Gymru. Fel dogfen o ffynhonnell yn Lloegr does dim cyfeiriad at Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Bydd angen iddi gael ei haddasu i gyd-fynd â chanllawiau gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru'

'Bydd angen i'r adnodd fod yn y Gymraeg i ni allu ei ddefnyddio.'

'Byddai'n '5 – defnyddiol iawn' petai'r adnodd ar gael yn y Gymraeg; ond fassen ni ddim yn ei ddefnyddio am nad yw yn y Gymraeg.'

'Defnyddiol iawn ond mae'n hanfodol ei fod ar gael yn ddwyieithog.'

Nododd y cyfranogwyr angen i staff gael eu hyfforddi mewn arfer adferol os yw'r ymagwedd i gael ei mabwysiadu'n llwyddiannus sydd yn ei dro yn codi ystyriaethau am ariannu. Teimlent hefyd fod angen i gydlynu'r ymagwedd adferol o fewn ysgol fod yn rôl benodol.

'Byddai'n ddefnyddiol cael adnodd fel hyn i'w rannu â staff i godi ymwybyddiaeth.'

'Rydyn ni'n hoffi'r meddylfryd optimistaidd – pwyslais ar y positif.'

Roedd y gwelliannau a awgrymwyd yn cynnwys:

- canllawiau pellach i esbonio pryd i ddefnyddio dulliau adferol a phryd i beidio â gwneud
- darparu siart llif ar gyfer staff sy'n dangos y gweithdrefnau i'r dilyn a sgript i staff ei ddilyn
- ychwanegu adran am fonitro'r sefyllfa
- mae'r senario yn atgyfnerthu ystrydebau a bydd angen ei ddiweddarau'n rheolaidd
- mae'r iaith a'r derminoleg sy'n cael eu defnyddio yn benodol i ysgolion uwchradd e.e. athro dosbarth
- byddai o fantais cael deunyddiau a phosteri ategol i ddisgyblion

Adnodd 4: Mynd i'r afael â hiliaeth mewn taflenni ffeithiau ar gyfer ysgolion (Llywodraeth Cymru – Dangos y cerdyn coch i hiliaeth)

Methodd llawer o gyfranogwyr â rhoi adborth ar yr adnodd oherwydd y cyfnod cyfyngedig a oedd ar gael yn y gweithdy. I'r mwyafrif o gyfranogwyr a fynegodd farn (34.5%) roedd y taflenni ffeithiau enghreifftiol o'r adnodd hwn, sef *'laith a Therminoleg: Cyflwyniad i*

Athrawon a 'Cofnodi achosion tybiedig o hiliaeth mewn ysgolion' yn ddefnyddiol, yn addysgiadol ac yn bwynt cyfeirio defnyddiol i ddiweddarau staff - gweler tabl 14. O ran y daflen ffeithiau 'Cofnodi achosion tybiedig o hiliaeth mewn ysgolion', roeddent yn hoffi'r siart llif yn 'arweiniad gweledol i adrodd hiliaeth' yn arbennig a oedd yn hawdd ei ddarllen.

Adnodd (n = 61)	Dim ateb	1 'dim o gwbl'	2	3	4	5 'yn fawr iawn'
Mynd i'r afael â hiliaeth mewn taflenni ffeithiau ar gyfer ysgolion	26 (42.6%)	2 (3.3%)	7 (11.5%)	5 (8.2%)	12 (19.7%)	9 (14.8%)

Roedd lleiafrif yn ansicr am gynulleidfa darged yr adnodd a chael y dyluniad lliwiau llawn yn anodd ei ddarllen, ac yn rhwystr posibl i'w ddefnyddio.

'Eithaf aneglur pwy ydy'r gynulleidfa darged – mae'r lliwiau yn awgrymu dysgwyr, ond mae'r iaith yn awgrymu staff?'

'Nid yw'r ffontiau a'r lliwiau cefndir yn briodol i rywun â dyslecsia neu'n lliwddall.'

'Bydd ysgolion yn argraffu mewn du a gwyn beth bynnag na fyddai'n hawdd eu darllen.'

'Angen iaith fwy hygyrch a fersiwn hawdd ei darllen i'w defnyddio gyda disgyblion.'

3.3 Awgrymiadau am adnoddau ychwanegol

Yn olaf, o'u holi 'Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw adnoddau arbennig o dda a ddylai gael eu cynnwys yn y pecyn cymorth terfynol?' enwodd cyfranogwyr y canlynol:

- Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan; mae gan adran athrawon gwefan SchoolBeat wybodaeth am reoli digwyddiadau o ymddygiad mewn ysgolion a'r gefnogaeth sydd ar gael gan Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion.
<http://www.ysgolbeat.org/en/teachers/ymddygiad-incident-management/>
<http://www.ysgolbeat.org/cy/athrawon/rheoli-digwyddiadau-ymddygiad/>
- Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP)
<https://www.ceop.police.uk/safety-centre/>

- Emotional literacy support assistant (ELSA) <https://www.elsa-support.co.uk/>
- ENABLE (European Network Against Bullying in Learning and Leisure Environments) prosiect gwrth-fwlio a phe cyn adnoddau dysgu cymdeithasol ac emosiynol gyda chefnogaeth cymheiriaid <http://enable.eun.org/>
- Friends for life - rhaglen meithrin sgiliau cymdeithasol a chydnerthedd i blant 8-11 oed <https://www.friendsresilience.org/friends-for-life-ages-8-11/>
- International Institute of Restorative Practices (IIRP): adnoddau a gwefan <https://www.iirp.edu/>
- Rhaglen Wrth-fwlio KiVa; y partneriaid trwyddedig yng Nghymru yw Early Intervention Wales Ltd. (EIWT) a leolir o fewn yr Ysgol Seicoleg, Prifysgol Bangor <http://www.kivaprogram.net/>
<http://www.kivaprogram.net/wales>
<https://www.bangor.ac.uk/psychology/cebei/index.php.en>

'Nid yw rhaglen KIVA wedi ei chyfieithu i Saesneg ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4 felly nid oes dilyniant ar draws pob cyfnod addysg.'

- Prevent4ysgolion (P4S) (cynradd ac uwchradd) <http://www.preventforysgolion.org/>
- Adnoddau SEAL ar gyfer ysgolion cynradd (Llywodraeth Cymru) <https://learning.gov.wales/adnoddau/browse-all/seal-for-primary-ysgolion/?lang=en>
<https://learning.gov.wales/adnoddau/browse-all/seal-for-primary-ysgolion/?skip=1&lang=cy>
- Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth <https://www.theredcard.org/education>
- Stonewall Cymru: adnoddau dysgu, cynlluniau gwers a llyfr stori LGBT <https://www.stonewallcymru.org.uk/>
- Canllawiau aflonyddu rhywiol Cymorth i Fenywod Cymru <http://www.welshwomensaid.org.uk/gwybodaeth-and-support/what-is-sexual-harassment-and-stalking/>

Cynhyrchodd Markit yr adroddiad hwn ar ran Llywodraeth Cymru. Hoffem estyn ein diolchgarwch i bawb a gymerodd ran yn y gweithgareddau ymgysylltu. Heb eu hamser a'u cydweithrediad hwy, ni fyddai agwedd hob yr ymgynghoriad wedi bod yn bosibl.